# Ffeministiaid

1. Ffeministiaid Rhyddfrydol.

Mae ffeministiaid rhyddfrydol yn canolbwyntio ar gydberthnasau rhyweddol ac anghydraddoldebau rhwng y rhywiau mewn cymdeithas. Maent yn awyddus i ddiwygio cymdeithas batriarchaidd.

Maent yn dadlau bod dynion yn chwarae rhan amlycach yn haenau uchaf y proffesiynau meddygol o hyd a bod hyn yn gysylltiedig â'r diffyg pŵer sydd gan ferched. Drwy gyflwyno'r bilsen, rhoddwyd rhywfaint o reolaeth i ferched dros eu cyrff eu hunain ond mae diffyg pŵer o hyd o ran geni plant, mabwysiadu a dulliau atal cenhedlu.

Tasg: Trafodwch i ba raddau y byddai mwy o gydraddoldeb yn helpu i ymdrin â'r diffyg pŵer i bob merch, yn eich barn chi?

Awgrym: Ystyriwch ddosbarth cymdeithasol.

2. Ffeminist Marcsaidd

Mae ffeministiaid Marcsaidd yn canolbwyntio ar yr anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng merched o wahanol ddosbarthiadau cymdeithasol. Mae Doyal yn dadlau bod y GIG yn diwallu anghenion y dosbarth gweithiol o ran darparu gwasanaethau iechyd am ddim adeg eu defnyddio ond ei fod hefyd yn diwallu anghenion y dosbarth cyfalafol drwy sicrhau bod gweithwyr yn ddigon iach i weithio.

Mae ffeministiaid Marcsaidd yn cytuno â ffeministiaid rhyddfrydol mai cymdeithas batriarchaidd ydyw a bod anghydraddoldebau eang ond maent yn dadlau na ellir ymdrin â nhw drwy ddiwygio'r system batriarchaidd. Mae Doyal (1995) yn dadlau bod angen newid y system gyfalafol ei hun yn sylweddol.

3. Ffeministiaid radical

Mae ffeministiaid radical yn dadlau bod yr ideoleg ddynol drechol o'r proffesiwn meddygol yn cael ei defnyddio i reoli merched. Mae beichiogrwydd, er enghraifft, wedi cael ei feddyginioli ac nid ystyrir beichiogrwydd na geni plant mwyach fel proses naturiol.

Mae Ehrenreich ac English (1978) yn dadlau bod merched yn hanesyddol wedi'u gormesu a bod dynion wedi camfanteisio arnynt. Maent wedi dadlau gan fod angen i ferched atgynhyrchu, yr ystyriwyd ei bod yn beryglus iddynt ymgymryd â gweithgareddau a allai eu hatal rhag gwneud hynny.

Mae ffeministiaid du a ffeministiaid ôl-fodern hefyd wedi cyfrannu at yr esboniadau o iechyd ac anabledd.

Mae'r ddau yn cyfeirio at groesdoriadedd gan ddadlau nad yw'n bosibl canolbwyntio ar rywedd heb ystyried dosbarth cymdeithasol ac ethnigrwydd.

Ffeministiaid du

Mae ffeministiaid du yn dadlau bod croesdoriadedd rhwng rhywedd, dosbarth ac ethnigrwydd. Mae Collins wedi ysgrifennu'n helaeth am bwysigrwydd ymdrin â chroesdoriadedd.

Mae hyn yn digwydd ym mhob rhan o gymdeithas, gan gynnwys salwch ac iechyd lle mae merched du, er

© WJEC CBAC LTD 2017

enghraifft, yn cael eu cyflogi ar lefel is na merched gwyn ar gyflogau is a chyda llai o statws.

Mae'r materion eraill a godwyd gan gymdeithasegwyr du ac Asiaidd yn cynnwys iaith, meddygon gwrywaidd/cleifion benywaidd a'r nifer isel o bobl sy'n defnyddio gwasanaethau ataliol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ymchwil yn y maes hwn wedi'i wneud ac yn cael ei wneud gan gymdeithasegwyr gwrywaidd megis Nazroo.

© WJEC CBAC LTD 2017